# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | **CYDLYNYDD CYNRYCHIOLAETH ACADEMAIDD (0.5FTE)** |
| **YN ATEBOL I:** | Pennaeth Llais Myfyrwyr |
| **CYFLOG:** | Gradd Gydlynydd (£12,764 to £14,322) |
| **ORIAU:** | 0.5 F Llawn amser, oriau blynyddol (18 awr yr wythnos), i'w gweithio'n hyblyg wedi trafodaeth â'r rheolwr llinell |
| **DATE OF WRITING:** | Mai 2026 |

**DIBEN Y SWYDD**
Sicrhau bod yr Undeb Myfyrwyr yn cefnogi ac yn grymuso Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr i gael llais cryf sydd yn ffurfio'u profiad addysgol. Cefnogi a galluogi cynrychiolaeth fyfyrwyr, yn bennaf trwy'r cynllun cynrychioli ar lefel cyrsiau. Bod yn aelod gweithredol o'r staff o ran gwaith allgymorth, sy'n mynd ati i siarad â myfyrwyr ynglŷn â'u profiadau a'u barn.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. **Cynrychiolwyr Academaidd**

- Monitro, cofnodi ac adrodd ar allbwn ac effeithiau'r cynllun cynrychiolaeth academaidd.
- Sicrhau bod cyfleoedd ac effeithiau'r cynllun cynrychiolaeth academaidd yn cael eu cyfathrebu'n eang ymysg aelodau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac archwiliad.
- Dilyn ac amlinellu profiadau, agweddau ac effeithiau Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr presennol.
- Adrodd i'r Swyddog Academaidd a'r aelodau tîm perthnasol y themâu a'r materion rheolaidd a godir gan y cynrychiolwyr academaidd sy'n peri pryder.

- Cydweithio mewn partneriaeth â'r UM a chydweithwyr Prifysgol Aberystwyth i ddatblygu a darparu system gyson ac effeithiol o gynrychiolaeth ar lefel cwrs sy'n denu diddordeb.
- Cydweithio gydag Undeb Aber a chydweithwyr Prifysgol Aberystwyth i sicrhau bod systemau, polisïau a phrosesau Prifysgol Aberystwyth yn effeithiol ac yn cynnal cynrychiolaeth academaidd myfyrwyr o safon uchel, er lles pawb.
- Gweithio gyda swyddogion a staff Undeb Aber i gysylltu canlyniadau a data'r Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr â blaenoriaethau a gweithrediadau'r Swyddogion.
- Cynorthwyo Undeb Aber mewn dwyn sylw at faterion cynrychiolaeth academaidd, gan gynnwys y rhai a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF).
- Hyrwyddo'r egwyddor o bartneriaeth rhwng myfyrwyr ac academyddion yn y ddarpariaeth o addysg o safon uchel.
- Hyrwyddo, rhannu a rhoi ymarfer da ac arloesol ar waith yn y maes rhyddhau.
- Cefnogi myfyrwyr i drefnu eu hunain ac i ymgyrchu dros y materion sydd o bwys iddynt.

**2. Hybu Etholiadau**

- Cynllunio, darparu a rhoi etholiadau Cynrychiolwyr Academaidd sydd yn rhydd a theg yn ôl y cylch busnes Undeb Aber.
- Gweithio gyda staff a swyddogion Undeb Aber i adolygu perfformiad etholiadau'n flynyddol.
- Gweithio gyda staff a swyddogion Undeb Aber i ddatblygu dulliau newydd a chreadigol o recriwtio ymgeiswyr ac etholwyr er mwyn cael cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan yn yr etholiadau.

**3. Hyfforddiant a Chefnogi Cynrychiolaeth**

- Gweithio gyda chydweithwyr allweddol, i gynllunio, paratoi a chefnogi cynnal cylch blynyddol o gyflwyno a hyfforddi i'r holl Gynrychiolwyr Academaidd newydd eu hethol yn yr holl feysydd perthnasol o fusnes ac i ddatblygu sgiliau'r Cynrychiolwyr.
- Cysylltu Cynrychiolwyr Academaidd â'r cyfleoedd gwleidyddol a datblygu perthnasol a ddarperir gan y UCM a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys mynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi.
- Mynd ati i gydweithio gyda Chynrychiolwyr Academaidd i sicrhau cymuned Gynrychiolwyr deinameg a llwyddiannus yn Undeb Aber.
- Cefnogi cynrychiolwyr academaidd mewn ymateb i faterion a phroblemau amser real sydd o bryder/diddordeb a fydd yn codi yn ystod eu deiliadaeth.

**4. Dyletswyddau eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all gynorthwyo â chyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau Undeb Aber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau Undeb Aber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo Undeb Aber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

**NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD**

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

*Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deiliad y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deiliad y swydd, a gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

**MANYLEB Y PERSON –CYDLYNYDD CYNRYCHIOLAETH ACADEMAIDD**

| MEINI PRAWF | Angenrheidiol | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| **CYMWYSTERAU** | | | |
| Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â Safon Uwch | Hanfodol | √ | |
| Cymhwyster mewn cydlynu gwirfoddolwyr | Dymunol | √ | |
| **PROFIAD** | | | |
| Profiad o drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau sy’n denu diddordeb | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o gynllunio a rhoi ymgyrchoedd hyrwyddol a chyfathrebu ar waith gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau megis rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu/rheoli cynnwys gwefan. | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o esbonio a/neu cynghori eraill ynghylch prosesau a gweithdrefnau cymhleth gan gynnig termau syml a hygyrch yn ysgrifenedig ac yn bersonol | Hanfodol | √ | |
| Profiad personol o ymgyrchu i sicrhau newid a/neu brofiad o chwarae rôl allweddol mewn sefydliad polisi/democratiaeth | Dymunol | √ | √ |
| **GWYBODAETH** | | | |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a themâu cyfoes yn Addysg Uwch a/neu yr Undeb Myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Gwybodaeth o agweddau ynghylch lobio a dylanwadu mewn sefydliadau cymhleth megis prifysgolion neu sefydliadau llywodraethol | Dymunol | √ | √ |
| Gwybodaeth o dueddiadau cyfoes mewn democratiaeth a chynrychiolaeth myfyrwyr a gwaith polisi | Dymunol | √ | √ |
| **NODWEDDION/SGILIAU** | | | |
| Y gallu i roi grym i eraill a'u hysgogi nhw | Hanfodol | | √ |
| Y gallu i weithio gydag unigolion, sefyllfaoedd neu sefydliadau cymhleth | Hanfodol | √ | |
| Y gallu i greu a chynnal perthynas weithio gref | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac ar eich liwt eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i fod yn hyderus ac yn frwd mewn gwaith allanol gan gynnwys siarad â myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol gyda phersonoliaeth bwyllog pan fyddwch dan bwysedd | Hanfodol | √ | √ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bod yn fedrus mewn rheoli amser a blaenoriaethu | Hanfodol | √ | v |
| Sgiliau TG rhagorol, gan gynnwys bod yn gyfarwydd â rhaglenni MS Office. | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth ac ymroddiad dros hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb ac arferion cynhwysol. | Hanfodol | √ | √ |
| Ymroddgar dros gynnal gwerthoedd yr Undeb Myfyrwyr. | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | √ | |